# Cydlynu rhaglenni sy'n cynnwys nifer o asiantaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chydlynu a rheoli rhaglenni sy'n cynnwys mewnbwn gan nifer o asiantaethau a chydweithrediad rhyngddynt.

**Mae dwy elfen**

1 Cytuno ar gynlluniau gweithredu i gyrraedd nodau y cytunwyd arnynt

2 Cydlynu gwaith cydweithwyr yn eich asiantaeth eich hun ac o fewn asiantaethau eraill

**Grŵp targed**

Mae'r safon hon yn berthnasol i'r rhai y mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli a chydlynu prosiectau a rhaglenni sy'n cynnwys mewnbwn gan nifer o asiantaethau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cytuno ar gynlluniau gweithredu i gyrraedd nodau y cytunwyd arnynt**

P1. gwirio bod cynlluniau'n gyson â'r amcanion y cytunwyd arnynt

P2. cydbwyso syniadau newydd yn erbyn atebion a brofwyd i leihau troseddu/aildroseddu

P3. nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen a chydbwyso'r rhain yn erbyn y canlyniadau a ddymunir

P4. ennyn cefnogaeth cydweithwyr allweddol yn eich asiantaeth eich hun ac asiantaethau perthnasol eraill

P5. sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn deall nodau'r rhaglen ac yn rhannu pwrpas cyffredin

P6. ystyried anghenion hanfodol, a throi targedau'n gamau gweithredu ymarferol, effeithlon ac effeithiol

P7. nodi a chyfiawnhau'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt

P8. sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn deall yr agweddau hanfodol ar weithredu'r rhaglen a'r trefniadau ar gyfer delio â hapddigwyddiadau

P9. creu cynllun sy'n hyblyg i ddiwallu anghenion gofynnol ac sy'n ategu meysydd gwaith cysylltiedig

P10. datblygu ac aseinio amcanion i bobl ynghyd â'r adnoddau cysylltiedig

P11. blaenoriaethu amcanion i ddiwallu anghenion a chynllunio gwaith i wneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau

P12. gosod amcanion CAMPUS i chi'ch hun ac eraill

P13. cydbwyso agendâu a magu consensws ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan

**Cydlynu gwaith cydweithwyr yn eich asiantaeth eich hun ac o fewn asiantaethau eraill**

P14. darparu'r lefel ofynnol o gymorth i alluogi cydweithwyr yn eich asiantaeth chi ac asiantaethau eraill i berfformio'n effeithlon ac yn effeithiol

P15. gwneud argymhellion sy'n nodi arfer da a meysydd i'w gwella

P16. rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig am faterion allweddol a chanlyniadau rhoi'r rhaglen ar waith, o fewn amserlenni penodol

P17. monitro a rheoli'r rhaglen er mwyn iddi gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, a hynny mewn pryd ac o fewn y gyllideb

P18. cydnabod newidiadau mewn amgylchiadau ac yn addasu cynlluniau a gweithgareddau yn unol â hynny

P19. monitro a rheoli eich cynllun er mwyn iddo gyflawni ei amcanion cyffredinol

P20. monitro ansawdd y gwaith a'r cynnydd yn erbyn cynlluniau a chymryd camau priodol, yn ôl yr angen

P21. dod o hyd i ffyrdd ymarferol a chyraeddadwy o oresgyn rhwystrau

P22. cadw rhoi gwybod i’r bobl berthnasol am gynlluniau a datblygiadau

P23. cyflwyno gwybodaeth yn gryno ac yn gywir ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1. deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r rhaglenni rydych chi'n cymryd rhan ynddynt, a'u heffaith ar y gwaith sy'n cael ei wneud

K2. rôl eich asiantaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu

K3. rôl yr asiantaethau y mae eich sefydliad yn gweithio gyda nhw a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu

K4. partneriaid gwirioneddol a phosibl, a'u strategaethau a'u cynlluniau

K5. egwyddorion a dulliau cynllunio tymor byr i dymor canolig

K6. pwysigrwydd creadigrwydd ac arloesedd mewn cynllunio gweithredol

K7. sut i ddatblygu ac aseinio amcanion CAMPUS (Cyrraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol)

K8. Sut i ddadansoddi a rheoli risg

K9. sut i ddatblygu a chynllunio ar gyfer hapddigwyddiadau
K10 egwyddorion a dulliau dirprwyo

K11. sut i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i gyflawni amcanion

K12. sut i ymgynghori â chydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill

K13. sut i fonitro a rheoli cynlluniau gweithredol i gyflawni eu hamcanion

K14. rolau a chyfrifoldebau allweddol rheolwr rhaglen

K15. egwyddorion, prosesau, offer a thechnegau ar gyfer rheoli rhaglenni

K16. sut i reoli, cymell, cynllunio, monitro ac asesu pobl

K17. sut i reoli newid o fewn rhaglenni

K18. amcanion allweddol y cytunwyd arnynt a chwmpas y rhaglen a'r adnoddau sydd ar gael

K19. cydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, a'u hanghenion a'u disgwyliadau

K20. prosesau ar gyfer ymgynghori

K21. gweithdrefnau yn eich sefydliad ar gyfer rheoli cyllid

K22. ffynonellau gwybodaeth y gallwch eu defnyddio i fonitro a gwerthuso cynlluniau

K23. gweithdrefnau ar gyfer adrodd a gwneud argymhellion

Cydlynu rhaglenni sy'n cynnwys nifer o asiantaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Ion 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ HF30 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc, Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Uwch Swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc, Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Uwch Weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Uwch Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Cydlynu; rhaglenni; asiantaethau; cydweithrediad |